Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Dolbadarn
# Llanberis
# Gwynedd
# LL55 4SH

## Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Dolbadarn

Mae Ysgol Gynradd Dolbadarn ym mhentref Llanberis yn awdurdod lleol Gwynedd. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol, ac fe gyflwynir Saesneg fel pwnc yng nghyfnod allweddol 2. Mae 177 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 14 oed meithrin, rhan-amser.

Mae cyfran gyfartalog y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim dros y tair blynedd ddiwethaf tua 8%. Mae hyn yn sylweddol is na'r ganran genedlaethol, sy'n 18%. Tua 56% o'r disgyblion sydd yn siarad Cymraeg gartref. Mae'r ysgol wedi adnabod tua 31% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn sylweddol uwch na'r ganran genedlaethol, sy'n 21%. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae Uned Anhwylderau Iaith, sy'n rhan o ddarpariaeth awdurdod addysg Gwynedd, wedi'i lleoli yn yr ysgol.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd yn Ionawr 2012, ac fe arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Rhagfyr 2012.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae arweinyddiaeth gadarn y pennaeth ac aelodau'r uwch dîm rheoli yn gosod cyfeiriad strategol hynod glir i ddatblygiad yr ysgol. Mae gan arweinwyr ddisgwyliadau uchel iawn sy'n seiliedig ar ddarparu addysg o'r ansawdd uchaf posibl i geisio sicrhau bod pob un disgybl yn cyrraedd ei lawn botensial. Mae gan holl aelodau'r staff weledigaeth gadarn i hybu Cymreictod, meithrin parch ac annog y disgyblion i wneud eu gorau.

Mae'r staff yn cydweithio'n hynod effeithiol fel tîm, a chânt gefnogaeth dda iawn gan y llywodraethwyr. O ganlyniad, mae bron pob disgybl, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn iawn, yn cyflawni'n dda ac yn gweithio'n annibynnol. Maent yn perfformio ar ddeilliannau a lefelau sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn a ddisgwylir, gyda'r mwyafrif erbyn eu bod yn cyrraedd brig yr ysgol yn gwneud cynnydd sydd y tu hwnt i hyn.

Mae bron pob un disgybl yn dangos balchder amlwg yn eu hysgol. Mae'r rhan fwyaf yn cyfathrebu ag ymwelwyr ac oedolion yn arbennig o effeithiol. Maent yn gwrtais a chyfeillgar iawn, yn ystyriol ac yn uniaethu'n dda iawn â'i gilydd.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Rhagorol** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Rhagorol** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Rhagorol** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Argymhellion

A1 Datblygu ymhellach uwch fedrau modelu technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion yng nghyfnod allweddol 2

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â'r cyfleodd amrywiol sy'n bodoli i gynnwys llais y disgyblion wrth gynllunio eu profiadau dysgu. Bydd yr astudiaeth achos yn cael ei lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Rhagorol**

Ar fynediad i'r ysgol, mae gan ran fwyaf y disgyblion fedrau sylfaenol sy'n briodol i'w hoed. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae bron pob disgybl, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn iawn, yn cyflawni'n dda ac yn gweithio'n annibynnol. Maent yn perfformio ar ddeilliannau a lefelau sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn a ddisgwylir, gyda'r mwyafrif, erbyn iddynt gyrraedd brig yr ysgol, yn gwneud cynnydd sydd y tu hwnt i hyn.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando'n astud, yn siarad yn eglur ac yn mynegi eu syniadau'n hyderus. Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn trafod eu gwaith gydag oedolion a disgyblion eraill yn wybodus a brwdfrydig. Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn cyfathrebu'n glir yn y ddwy iaith ac yn cynnig atebion, sylwadau a mynegi barn yn hynod aeddfed. Ar frig yr ysgol, maent yn trafod digwyddiadau'r holocost yn sensitif a deallus iawn. Maent yn dangos balchder at yr iaith Gymraeg ac yn dewis defnyddio'r iaith i gymdeithasu amser chwarae yn ogystal ag yn eu gwersi. Ar frig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn cyrraedd safon dda iawn o ddwyieithrwydd ac yn newid yn rhwydd o un iaith i'r llall wrth drafod eu gwaith.

Mae medrau darllen bron pob disgybl yn datblygu'n llwyddiannus iawn. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn darllen yn rhugl a chywir ac yn ymdrechu'n aeddfed i adeiladu geiriau sy'n anghyfarwydd iddynt. Mae llawer yn darllen gyda mynegiant ac ystyr clir. Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn darllen yn ddeallus ac yn aeddfed yn y ddwy iaith. Gwnânt ddefnydd hynod effeithiol o'u medrau darllen i gywain gwybodaeth berthnasol o lyfrau a thestunau amrywiol ac oddi ar wefannau priodol i gyfoethogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, maent wedi ymchwilio i effaith economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol ar ardal benodol yn dilyn tswnami.

Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu yn hynod effeithiol. Maent yn sillafu'n gywir ac yn atalnodi'n bwrpasol gan amlaf. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da iawn yn eu hyfedredd i ddefnyddio geirfa ac iaith amrywiol i ysgrifennu storïau, llythyrau a cherddi. Er enghraifft, maent wedi ysgrifennu llythyr diddorol i rannu profiadau bywyd yn Llanberis gyda chymeriad o'r enw Ceri Coala yn Awstralia.

Erbyn iddynt gyrraedd brig yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu darnau aeddfed o safon uchel mewn amrediad eang o gyd-destunau. Maent yn strwythuro eu gwaith yn gywir yn y Gymraeg a'r Saesneg, gan arddangos gafael gadarn ar gystrawen ac atalnodi. Mae llawer yn creu darnau creadigol a dychmygus, ac yn gwneud defnydd arbennig o effeithiau a chymariaethau yn llwyddiannus i gyfoethogi eu gwaith. Er enghraifft, maent wedi disgrifio effaith daeargryn ar gymuned leol yn hynod deimladwy. Mae llawysgrifen a chyflwyniad gwaith rhan fwyaf y disgyblion yn daclus iawn.

Yn y cyfnod sylfaen, mae bron pob disgybl yn defnyddio'u medrau rhifedd yn llwyddiannus mewn meysydd eraill. Maent yn casglu gwybodaeth ac yn cofnodi eu canlyniadau yn fedrus mewn tablau a diagramau syml, er enghraifft wrth gasglu a

chofnodi data i adnabod y gwahanol adar sy'n cynefino ger Llyn Padarn. Maent yn cyflwyno eu canfyddiadau yn fedrus ar graff bar. Maent yn datblygu dealltwriaeth gadarn o bwysau gan ddefnyddio unedau mesur yn gywir wrth wneud bisgedi, er enghraifft.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau rhifedd bron pob disgybl yn hynod gadarn, gyda'r disgyblion mwy abl yn cyflawni'n uchel iawn. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio medrau mesur yn eithriadol o effeithiol wrth ddarganfod costau defnyddio trydan a chymharu prisiau gwahanol gyflenwyr. Maent yn defnyddio a dehongli data yn hynod ddeallus, er enghraifft wrth werthuso medrau gwahanol y pêl-droediwr, Gareth Bale, mewn gêm, a chyflwyno a dadansoddi ei gyfraniad ar ffurf siart cylch. Maent yn datrys problemau rhifiadol yn effeithiol iawn, er enghraifft wrth adnabod patrymau cod i ddehongli negeseuon cudd yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Mae medrau TGCh rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n gadarn iawn ar draws yr ysgol. Yn y cyfnod sylfaen, mae disgyblion yn creu dyluniadau cyfrifiadurol ar ddull patrymau papur wal ac yn arbed eu gwaith yn ofalus mewn ffeiliau priodol. Maent yn hyderus wrth greu brawddegau syml i gynnig syniadau ar sut i ddal draig neu wrth ddisgrifio nodweddion dail yr hydref. Maent yn defnyddio llechen electronig yn hyderus i ffilmio'u cyfoedion, yn rhoi cyfarwyddiadau ar sut i wneud paned o de.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn creu ac archwilio data yn effeithiol i greu cyflwyniadau amlgyfrwng i atgyfnerthu eu gwaith, er enghraifft i ddangos ffyrdd o gadw'n ddiogel ar y we. Maent yn cynhyrchu cronfeydd bas data manwl i gyflwyno gwybodaeth fel siart cylch i gyfleu pa mor aml y mae disgyblion yn gwrando ar gerddoriaeth Gymraeg. Fodd bynnag, nid yw eu medrau modelu wedi datblygu'n llawn ar y lefelau uwch.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol**

Mae llais y disgybl yn elfen gref iawn o waith yr ysgol ac mae'r disgyblion yn manteisio'n llawn ar y cyfleoedd niferus i fynegi barn. Mae'r cyngor ysgol wedi arwain agweddau pwysig fel creu polisïau yn ymwneud ag iechyd a chyfle cyfartal. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cefnogi gweithgareddau'r pwyllgorau lluosog yn frwdfrydig iawn ac yn codi arian ar gyfer nifer o elusennau lleol a chenedlaethol. Caiff hyn effaith gadarnhaol iawn ar eu hymwybyddiaeth o anghenion eraill o fewn eu cymuned a'r byd ehangach.

Mae bron pob un disgybl yn dangos balchder amlwg yn eu hysgol. Mae ymddygiad bron pob un mewn gwersi, gwasanaethau, wrth symud o amgylch yr ysgol ac yn ystod egwyl, yn ardderchog. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, ac yn gwybod at bwy i droi pan fydd angen cymorth arnynt. Maent yn cyfathrebu ag ymwelwyr ac oedolion yn arbennig o aeddfed ac maent yn gwrtais a chyfeillgar iawn, yn ystyriol ac yn uniaethu'n dda iawn â'i gilydd. Mae bron pob un disgybl yn rhoi ystyriaeth ofalus i anghenion eu cyfeillion; er enghraifft, mae'r 'bydis buarth' yn sicrhau nad oes unrhyw blentyn heb ffrind yn ystod amser cinio ac amser chwarae.

Mae bron pob un disgybl ar draws yr ysgol yn dangos agwedd gadarnhaol iawn tuag at eu gwaith ac maent yn dyfalbarhau â'u tasgau yn arbennig o aeddfed. Erbyn eu bod yn cyrraedd brig yr ysgol, mae gan y rhan fwyaf ddealltwriaeth gadarn iawn o ba

mor dda maent yn ei wneud a beth sydd angen iddynt ei wneud i wella. Ym mhob dosbarth, mae'r disgyblion yn manteisio'n llawn ar y cyfleoedd i awgrymu beth yr hoffent ei ddysgu o fewn y thema ac yn cynnig eu trywyddau dysgu eu hunain. Mae hyn yn gryfder amlwg ac yn cael effaith gadarnhaol ar eu brwdfrydedd a'u dyfalbarhad.

Mae bron pob un disgybl yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach, a chymryd rhan mewn gweithgareddau i ymarfer y corff yn gyson; er enghraifft, maent yn defnyddio'r amgylchedd lleol i fynydda a chaiacio yn rheolaidd. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol iawn at ddatblygiad eu ffitrwydd a'u medrau cymdeithasol.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Rhagorol**

Mae nodweddion arwyddocaol y strategaethau addysgu hynod lwyddiannus a ddefnyddir ar draws yr ysgol yn cael effaith gadarnhaol ac uniongyrchol ar gyflawniad a lles y disgyblion. Mae'r drefn gytûn o gynllunio gweithgareddau dysgu gwahaniaethol sy'n mynd i'r afael ag anghenion disgyblion o bob gallu yn nodwedd gref iawn. Mae'r gwaith yn seiliedig ar themâu a phrofiadau dysgu diddorol a dychmygus sy'n cynnwys ystyried syniadau'r disgyblion fel mannau cychwyn. Ar ddechrau pob thema, mae'r disgyblion yn datgan yr hyn maent yn ei wybod yn barod a'r hyn yr hoffent ei ddysgu, ac ar ddiwedd y cyfnod astudio, maent yn esbonio beth y maent wedi ei ddysgu. Mae hyn yn ennyn eu diddordeb yn dda ac yn datblygu eu medrau a'u chwilfrydedd tuag at ddysgu yn grefftus, gan gryfhau eu hymrwymiad i'w gwaith yn hynod lwyddiannus.

Mae cynllunio gofalus a thrylwyr yr athrawon yn sicrhau bod tasgau yn adeiladu'n gelfydd ar rai blaenorol ac yn sicrhau bod dilyniant a pharhad clir ym medrau dysgu annibynnol y disgyblion wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Yn y cyfnod sylfaen, mae tasgau'n herio'r disgyblion i weithio'n annibynnol yn yr ardaloedd dysgu yn llwyddiannus iawn. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r dysgu yn adeiladu'n drefnus ar hyn, gyda'r disgyblion yn cymryd mwy o gyfrifoldeb am ddewis y lefel o her maent am ei chwblhau yn eu gweithgareddau yn gynyddol. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol hyderus ac aeddfed iawn.

Mae'r ysgol yn sicrhau bod datblygu llythrennedd a rhifedd disgyblion yn greiddiol i'w chynlluniau. Mae athrawon yn cynllunio profiadau dysgu cyfoethog a chreadigol i ddatblygu medrau'r disgyblion yn systematig, yn seiliedig ar eu profiadau blaenorol. Mae hyn yn cynnig cyfleoedd effeithiol iddynt eu cymhwyso ar draws y cwricwlwm yn hollol naturiol, sy'n arwain at safon uchel erbyn diwedd cyfnod allweddol 2. Mae disgyblion yn cael cyfleoedd da i ddefnyddio'u medrau TGCh ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, cyfyng yw'r cyfleoedd i ddatblygu uwch fedrau modelu TGCh disgyblion yng nghyfnod allweddol 2.

Mae'r athrawon a'r cymorthyddion dysgu yn gweithio'n hynod effeithiol fel tîm ac yn manteisio ar bob cyfle i gyfoethogi iaith disgyblion, sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at eu medrau llafar da. Maent yn hyrwyddo'r Gymraeg a Chymreictod yn llwyddiannus iawn. Er enghraifft, maent yn annog y disgyblion i ddysgu am hanes eu hardal leol trwy ymweld yn gyson â'r pentref a thu hwnt. Maent yn trefnu i'r disgyblion astudio gwaith artistiaid ac awduron o Gymru a chystadlu mewn eisteddfodau yn rheolaidd. Mae'r profiadau hyn yn cyfoethogi eu gwybodaeth a'u hunaniaeth fel Cymry.

Mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel iawn o bob disgybl, ac mae ansawdd eu cyflwyniadau a'u cwestiynau yn heriol a phwrpasol iawn. Mae hyn yn sicrhau bod bron pob un disgybl yn ymroi'n llwyr i'w tasgau, yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig, ac yn arddangos cymhelliant uchel. Mae awyrgylch dysgu brwdfrydig yn bodoli ym mhob dosbarth, gyda pherthynas waith iach yn bodoli rhwng unigolion ym mhob gwers.

Mae gan staff strategaethau llwyddiannus i adnabod yr hyn y mae disgyblion yn ei ddeall ynghyd â'r gallu i adnabod y camau nesaf ar eu cyfer. Rhoddir adborth adeiladol llafar ac ysgrifenedig i ddisgyblion er mwyn iddynt ddeall yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella. Darperir cyfleoedd cynyddol i ddisgyblion fyfyrio ar eu dysgu eu hunain a dysgu eu cyfoedion, ac i gyfrannu'n effeithiol at y broses o osod targedau i wella'u gwaith. Mae'r elfen hon yn gryfder yn yr ysgol ac yn cyfrannu'n llwyddiannus iawn at gynnydd a chyflawniad uchel y disgyblion.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol

Mae ansawdd y gofal, y cymorth a'r arweiniad a ddarperir yn hynod lwyddiannus ac yn cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau a lles y disgyblion.

Mae gan yr ysgol weithdrefn effeithiol iawn i olrhain a monitro cynnydd a lles disgyblion. Mae'r camau yn galluogi'r staff i gynllunio a darparu cefnogaeth gynhwysfawr i fynd i'r afael ag anghenion unigolion a grwpiau penodol o ddisgyblion yn llwyddiannus iawn. Mae hyn yn galluogi'r disgyblion i wneud cynnydd cadarn iawn o'u man cychwyn.

Mae athrawon yn adnabod anghenion addysgol, emosiynol a chymdeithasol y disgyblion yn gynnar ac mae'r cymorthyddion yn gweithio'n hynod fedrus o dan eu harweiniad nhw a'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol i weithredu ystod eang o raglenni ymyrraeth pwrpasol o safon uchel iddynt. Mae gan bob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gynllun addysg clir, sy'n cynnwys targedau penodol, mesuradwy a heriol. Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag asiantaethau cefnogol fel y swyddogion lles wrth lunio'r cynlluniau unigol hyn. Mae hyn yn sicrhau bod y ddarpariaeth ofalgar ac addas i'r disgyblion yn cael effaith gadarnhaol iawn ar eu cynnydd a'u lles.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau creadigol a diwylliannol y disgyblion yn gryfder yn yr ysgol. Yn yr un modd, mae traddodiad cryf o gystadlu mewn eisteddfodau lleol a chenedlaethol yr Urdd a chymryd rhan mewn cyngherddau yn bodoli ers nifer o flynyddoedd. Gwneir defnydd gwerthfawr o ymwelwyr i ehangu profiadau celfyddydol y disgyblion, er enghraifft wrth iddynt gydweithio ag artistiaid lleol i greu darluniau a chollage deniadol. Mae'r cyfleoedd hyn yn cyfoethogi profiadau disgyblion yn hynod effeithiol, yn arwain at safonau uchel yn eu medrau creadigol, yn codi eu hunanhyder ac yn cyfoethogi eu hymwybyddiaeth o'u hetifeddiaeth Gymreig yn llwyddiannus iawn.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion yn effeithiol iawn trwy ddarparu gwasanaethau cyd-addoli symbylus a thrwy wersi addysg grefyddol..

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol o ansawdd uchel iawn ac yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o werthoedd fel

gonestrwydd, tegwch a pharch tuag at grefyddau a chredoau eraill. Amlygir hyn yn glir yn y ffordd hynaws y mae’r ysgol yn cynnig arweiniad gwerthfawr i’r disgyblion fagu arferion ymddygiad da. Mae ymddygiad cyfeillgar y disgyblion i'w gilydd yn dystiolaeth o lwyddiant y cymorth gofalgar hwn.

Mae’r ysgol yn darparu cyfleoedd lluosog i ddisgyblion leisio’u barn trwy amrywiol fforymau, yn arbennig wrth gyfrannu syniadau am yr hyn y maent am ei ddysgu. Trwy wneud hyn, mae’r staff yn annog disgyblion i fod yn ddysgwyr cydwybodol sy’n cymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain. Maent yn rhoi bri ar ddatblygu dysgwyr sy’n ddinasyddion cyfrifol wrth eu hannog i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o anghenion eraill a chodi arian at elusennau yn rheolaidd.

Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn iawn i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach, ac ar gyfer sicrhau bod disgyblion yn deall sut i fod yn ddiogel. Mae ymroddiad yr ysgol i hyrwyddo gweithgareddau fel cerdded y mynyddoedd lleol a datblygu medrau dringo yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr iddynt ddatblygu eu ffitrwydd yn gyson.

Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol**

Mae arweinyddiaeth gadarn y pennaeth ac aelodau’r uwch dîm rheoli yn gosod cyfeiriad strategol clir i ddatblygiad yr ysgol. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel iawn, sy’n seiliedig ar ddarparu addysg o’r ansawdd uchaf posibl er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn cyrraedd ei lawn botensial. Mae gan holl aelodau’r staff, weledigaeth gadarn i hybu Cymreictod, meithrin parch ac annog y disgyblion i wneud eu gorau. Maent yn cyfleu hyn i’r disgyblion, y rhieni a’r llywodraethwyr yn llwyddiannus iawn.

Mae’r pennaeth wedi dosrannu cyfrifoldebau’n hynod effeithiol ymhlith y staff, ac yn chwarae rôl allweddol wrth eu datblygu a hybu cydweithio. Rhoddir cyfleoedd gwerthfawr i aelodau staff arwain mentrau sy’n seiliedig ar agweddau penodol o’r cwricwlwm, fel asesu ffurfiannol a chynllunio camau iaith i sicrhau dilyniant mewn medrau llefaredd. Mae hyn yn sicrhau bod pob agwedd ar waith yr ysgol yn cael dylanwad cadarnhaol a chlir ar gyflawniad a lles disgyblion, yn ogystal â sicrhau ethos cartrefol a chymuned drefnus.

Mae cyfarfodydd staff rheolaidd yn canolbwyntio’n glir ar flaenoriaethau ar gyfer gwella ac yn sicrhau bod pawb yn deall eu rolau a’u cyfrifoldebau yn glir. Maent yn cydweithio’n agos iawn ac yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod a chynllunio ar y cyd.

Mae diwylliant o hunanarfarnu parhaus, sy’n canolbwyntio’n fanwl ar ddeilliannau disgyblion, wedi gwreiddio’n ddwfn ym mywyd pob dydd yr ysgol. Mae gweithdrefnau cadarn iawn i adolygu cynnydd, nodi meysydd ar gyfer eu gwella a chymryd camau effeithiol i’w gweithredu. Mae'r rhain yn cynnwys dadansoddiad gofalus o ddata perfformiad cymharol yr ysgol a’i deilliannau, trefniadau asesu mewnol, craffu ar lyfrau a chynlluniau gwaith, ac arsylwi gwersi’n rheolaidd. O ganlyniad, mae’r arweinwyr a’r staff yn adnabod eu hysgol yn dda iawn ac yn mynd i’r afael â gwelliannau’n gyflym a llwyddiannus. Mae’r athrawon a’r staff i gyd yn cymryd rhan weithredol yn y broses o fonitro, gwerthuso a chynllunio ar gyfer

gwelliant.  Mae’r ysgol wedi ymateb i argymhellion yr arolygiad diwethaf yn hynod lwyddiannus ac mae’r meysydd hyn bellach yn gryfderau amlwg yn yr ysgol.  Mae’r cynnydd mewn cyrhaeddiad disgyblion o’u man cychwyn yn dystiolaeth gadarn o hyn.

Mae gan aelodau’r corff llywodraethol wybodaeth drylwyr am berfformiad yr ysgol drwy chwarae rhan flaenllaw yn ei phrosesau monitro, hunanarfarnu a chynllunio strategol.  Trwy gydweithio’n effeithiol gyda’r uwch dîm rheoli, arsylwi ar wersi a chraffu ar lyfrau, mae ganddynt ymwybyddiaeth gadarn o safonau’r dysgu a’r addysgu.  Mae hyn yn eu galluogi i ddwyn yr ysgol i gyfrif yn llwyddiannus a gosod cyfeiriad strategol clir i ddatblygu’r ysgol fel cymuned ddysgu effeithiol.

Mae arweinwyr yn defnyddio adnoddau’n effeithlon i gyfoethogi'r cwricwlwm a chodi safonau disgyblion ym mhob maes.  Mae gwariant wedi ei gysylltu’n briodol â blaenoriaethau gwella a chaiff y cyllid ei fonitro’n ofalus i sicrhau’r defnydd gorau ohono ac i ddarparu addysg o ansawdd uchel.  Er enghraifft, mae’r ysgol yn defnyddio’r grant datblygu disgyblion yn ddarbodus i godi safonau’r ychydig iawn o ddisgyblion sy’n gymwys i’w dderbyn.  Gwelir cynnydd amlwg ym medrau darllen ac ysgrifennu'r disgyblion hyn.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 17/12/2018